# Asesiad o'r Gystadleuaeth o Effeithiau'r Offerynnau Statudol Arfaethedig sy'n deillio o Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

Canlyniadau a Dadansoddiad o'r Arolwg a Chyfweliadau

**Ann Ballinger**
**Alice Johnson**
**Emma How**
**Katharine Rowland**
**Peter Jones**
**Danielle Katz**

**28 Ebrill 2020**

## Adroddiad i Lywodraeth Cymru

## Paratowyd gan Eunomia Research & Consulting Ltd

Cymeradwywyd gan

……………………………………………………


Peter Jones

(Cyfarwyddwr Prosiect)

Eunomia Research & Consulting Cyf
37 Queen Square
Bryste
BS1 4QS

Y Deyrnas Unedig

Ffôn: +44 (0)117 9172250
Ffacs: +44 (0)8717 142942

Gwefan: www.eunomia.co.uk



*Cydnabyddiaeth*

Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau a neilltuodd amser i ddarparu data ar gyfer y prosiect hwn a rhoi eu sylwadau drwy gyfweliadau ffôn ac ymatebion i'r arolwg.


*Ymwadiad*

Mae Eunomia Research & Consulting wedi rhoi gofal dyladwy i'r gwaith o baratoi'r adroddiad hwn i sicrhau bod yr holl ffeithiau a'r dadansoddiad a gyflwynir mor gywir â phosibl o fewn cwmpas y prosiect. Fodd bynnag, ni roddir unrhyw warant ynglŷn â'r wybodaeth a gyflwynir, ac nid yw Eunomia Research & Consulting yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu a gymerir ar sail cynnwys yr adroddiad hwn.

# Crynodeb Gweithredol

Mae Eunomia Research & Consulting wedi cynnal yr asesiad hwn o'r gystadleuaeth ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r asesiad yn seiliedig ar waith ymgysylltu â'r diwydiannau yr effeithir arnynt o ran effeithiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n deillio o Ran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ar gystadleurwydd. Rhoddwyd manylion y ddeddfwriaeth arfaethedig yn nogfen ddiweddar Llywodraeth Cymru *Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru*.[1]

Mae'n cynnwys

- Ei gwneud hi'n ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff annomestig (yn cynnwys busnesau, elusennau a'r sector cyhoeddus) gyflwyno gwahanol fathau o wastraff - papur/cerdyn, gwydr, plastig/caniau, bwyd, deunyddiau electronig a thecstilau - ar wahân i'w gilydd, er mwyn gallu eu casglu ar gyfer ailgylchu;
- ei gwneud hi'n ofynnol i gasglwyr gwastraff drefnu i'r deunyddiau hyn gael eu casglu ar wahân;
- gwahardd gwaredu gwastraff ailgylchadwy penodedig a gesglir ar wahân mewn safleoedd tirlenwi;
- gwahardd llosgi deunyddiau gwastraff ailgylchadwy a gesglir ar wahân;
- gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o safleoedd annomestig.

Fel rhan o'i phroses ymgynghori mae Llywodraeth Cymru'n dymuno cael dealltwriaeth lawnach o sut mae busnesau'n credu y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar eu gallu i gystadlu.

Roedd y gwaith ymgysylltu a wnaed ar gyfer yr astudiaeth hon yn cynnwys arolygon o gwmnïau sy'n casglu, rheoli a didoli gwastraff wedi'i ailgylchu a chyfweliadau gyda chynrychiolwyr cwmnïau sy'n gweithgynhyrchu technolegau i drin gwastraff bwyd cyn iddo gael ei anfon i garthffos. Y nod oedd deall sut y bydd y ddeddfwriaeth yn debygol o effeithio ar allu'r busnesau hyn i gystadlu.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg a anfonwyd at gwmnïau gwastraff sy'n casglu, rheoli a didoli gwastraff wedi'i ailgylchu ac yn cyflwyno canlyniadau cyfweliadau gyda phum busnes sy'n cael eu heffeithio gan y gwaharddiad arfaethedig ar wahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o safleoedd annomestig.

Cyfradd ymateb sefydliadau rheoli gwastraffi'r arolwg oedd 16%, gyda 21 cwmni yn darparu ymatebion. Nid yw hon yn gyfradd ymateb anarferol o isel, ond efallai ei bod yn

[1] Llywodraeth Cymru (2019) *Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru*, Medi 2019, https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-09/cynyddu-ailgylchu-ymhlith-busnesau-yng-nghymru.pdf

dangos nad oes lefel uchel o bryder ynghylch effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig ar gystadleurwydd yng Nghymru.

Ar draws y gwahanol agweddau ar reoli gwastraff roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr i'r arolwg yn credu y byddai eu costau'n cynyddu. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod ymatebwyr yn hyderus o'u gallu i gystadlu yn y farchnad newydd, er eu bod yn disgwyl i gystadleuwyr newydd ymddangos. Yn gyffredinol, mae atebion yr ymatebwyr yn cyfleu sefyllfa lle maent yn disgwyl gweld cynnydd mewn cystadleuaeth yn y farchnad, yn hytrach na gostyngiad. Gall hyn fod yn bryder i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar hyn o bryd ond mae'n awgrymu nad oes rheswm cryf i gredu y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn y diwydiant gwastraff.

Gan fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos, roedd yn ddealladwy bod y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda sefydliadau sy'n cyflenwi technolegau a'r defnyddiau traul sy'n hwyluso gwaredu o'r fath, yn rhagweld effaith sylweddol ar eu gallu i weithredu ym marchnad Cymru. Mewn rhai achosion, roedd yr effeithiau wedi'u teimlo eisoes, gyda busnesau'n gadael (neu'n bwriadu gadael) marchnad Cymru ar gyfer cynhyrchion penodol.

Dywedodd pob busnes ar gyfer pob technoleg y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael effaith sylweddol yng Nghymru. Cafodd ymateb pob busnes sgôr o 2 neu is am effeithiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar Gymru'n benodol, gyda'r mwyafrif yn sgorio 1 – y lefel uchaf o effaith negyddol.

Dywedodd gweithgynhyrchwyr technoleg treulio gan ensymau y byddai unrhyw ostyngiad mewn refeniw o ganlyniad i dynnu'n ôl o farchnad Cymru yn arwain at lai o fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, a allai leihau gallu'r busnesau i gystadlu mewn agweddau eraill ar eu busnes yng Nghymru. Fodd bynnag, thema gyffredin gan bob ymatebydd oedd y byddai unrhyw effaith ar eu busnes ledled y DU yn gymharol isel gan fod maint marchnad Cymru yn gymharol fach.

# Tabl Cynnwys


**1.0 Cyflwyniad ... 1**

**2.0 Arolwg o'r Diwydiant Gwastraff ... 1**

2.1 Methodoleg yr Arolwg ... 1

*2.1.1 Cynllun yr Arolwg ... 1*

*2.1.2 Dewis Ymatebwyr ... 2*

*2.1.3 Gweithredu'r Arolwg ... 2*

2.2 Crynodeb o'r Canlyniadau ... 3

*2.2.1 Dadansoddiad o Ymatebion yn ôl y Math o Sefydliad ... 3*

*2.2.2 Casglu Gwastraff o Safleoedd Annomestig ... 4*

*2.2.3 Busnesau'n Gweithredu Gorsaf Drosglwyddo ... 7*

2.3 Gweithredwyr MRF a Gweithredwyr Triniaeth Gwastraff Bwyd ... 9

2.4 Sylwadau Cyffredinol gan Ymatebwyr ... 10

2.5 Safbwyntiau a Fynegwyd gan Sefydliadau Rheoli Gwastraff yng Nghynhadledd Economi Gylchol Cymru ... 10

2.6 Crynodeb a Chasgliadau ... 11

**3.0 Cyfweliadau gyda Gweithgynhyrchwyr a Effeithir gan y Gwaharddiad Gwastraff Bwyd i Garthffos ... 12**

3.1 Methodoleg ... 12

*3.1.1 Cynllun Cyfweliadau ... 12*

*3.1.2 Dull Dadansoddi ... 12*

3.2 Canlyniadau'r Cyfweliadau ... 12

*3.2.1 Cwestiynau am Gyfranogwyr y Cyfweliadau ... 12*

*3.2.2 Effeithiau'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos ... 14*

*3.2.3 Sylwadau Ychwanegol a Ddarparwyd yn y Cyfweliadau ... 22*

3.3 Crynodeb a Chasgliadau ... 22

**ATODIADAU ... 24**

A.1.0 Cwestiynau arolwg ... 25

A.2.0 Gwastraff bwyd i gwestiynau carthffosiaeth cyfweliad ... 33

# 1.0 Cyflwyniad

Penodwyd Eunomia Research & Consulting (Eunomia) gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i safbwyntiau sefydliadau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n deillio o Ran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ynghylch ei heffaith ar eu gallu i gystadlu.

I gasglu data, cynhaliodd Eunomia arolwg ar-lein a chyfweliadau ffôn gyda gwahanol sefydliadau. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil ac wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae Adran 2.0 yn adrodd ar yr arolwg o sefydliadau rheoli gwastraff:
    - Mae Adran 2.1 yn egluro'r fethodoleg ar gyfer yr arolwg.
    - Mae Adran 2.2 yn disgrifio canlyniadau'r arolwg ar-lein.
    - Mae Adran 2.3 yn darparu sylwadau gan Weithredwyr Cyfleusterau Adennill Deunyddiau (MRF) a Gweithredwyr Triniaeth Gwastraff Bwyd
    - Mae Adran 2.4 yn darparu sylwadau cyffredinol o'r arolwg ar-lein
    - Mae Adran 2.5 yn disgrifio gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd gan gwmnïau gwastraff yng Nghynhadledd Economi Gylchol Cymru.
    - Mae Adran 2.6 yn crynhoi prif themâu a chanlyniadau'r arolwg.
- Mae Adran 3.0 yn adrodd ar gyfweliadau a gynhaliwyd gyda sefydliadau sy'n cynhyrchu cyfarpar ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd i'r garthffos:
    - Mae Adran 3.1 yn egluro'r fethodoleg ar gyfer y cyfweliadau.
    - Mae Adran 3.2 yn disgrifio canlyniadau'r cyfweliadau.
    - Mae Adran 3.3 yn crynhoi'r casgliadau o'r cyfweliadau.

# 2.0 Arolwg o'r Diwydiant Gwastraff

## 2.1 Methodoleg yr Arolwg

### 2.1.1 Cynllun yr Arolwg

Cynlluniwyd yr arolwg i gael safbwyntiau sefydliadau sy'n casglu, trosglwyddo ac ailbrosesu/trin/gwaredu gwastraff sy'n deillio o safleoedd annomestig ledled Cymru. Rhannwyd yr arolwg i adrannau, ar gyfer sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, gan ddefnyddio 'rhesymeg neidio' er mwyn i ymatebwyr allu osgoi treulio amser ar gwestiynau amherthnasol. Defnyddiwyd strwythurau cwestiynau cyson ym mhob adran er mwyn gwella'r gallu i gymharu canlyniadau, a rhoddwyd atebion â bandiau i gwestiynau ag atebion meintiol (e.e. nifer gweithwyr) er mwyn hwyluso cyfraddau ymateb uwch gan eu bod yn haws i'w hateb. Nid oedd cwestiynau o natur fwy sensitif (e.e. cyfeiriad cwmni, nifer gweithwyr) yn orfodol er mwyn dileu pryderon am fod yn anhysbys a gwybodaeth sensitif.

Er mwyn ceisio sicrhau cyfradd ymateb mor uchel â phosibl, sy'n her yn aml gydag arolygon ar-lein, cynlluniwyd y cwestiynau i fod yn gryno a hawdd i'w hateb. Nod y dull

hwn hefyd oedd annog ymatebwyr a oedd yn dechrau'r arolwg i gwblhau pob adran. Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i ymatebwyr ar bwrpas yr arolwg ar y dechrau trwy lythyr cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac roedd cyfle i ofyn cwestiynau i Eunomia a Llywodraeth Cymru, gyda manylion cyswllt wedi'u darparu yn y cyflwyniad. Dosbarthwyd yr arolwg yn y Gymraeg a'r Saesneg i sicrhau nad oedd iaith yn rhwystr i ymatebwyr.

### 2.1.2 Dewis Ymatebwyr

Er mwyn i'r arolwg roi darlun cywir o effeithiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar y sector gwastraff masnachol, roedd hi'n bwysig bod cyfranogwyr yr arolwg yn adlewyrchu amrywiaeth y gweithredwyr yn y sector. Felly, cysylltwyd yn rhagweithiol â sefydliadau perthnasol i'w hannog i gymryd rhan. Ystyriwyd dau ffactor er mwyn sicrhau lefel addas o amrywiaeth ymysg ymatebwyr:

- Gwaith rheoli gwastraff – roedd ein dull yn sicrhau ein bod yn cysylltu â detholiad eang o gasglwyr gwastraff, gweithredwyr gorsafoedd trosglwyddo, didolwyr gwastraff ac ailbroseswyr gwahanol fathau o wastraff, yn gymesur â nifer y sefydliadau ym mhob categori;
- Maint a math o gwmni – cysylltodd Eunomia â phob cwmni rheoli gwastraff sy'n gweithredu ledled Cymru, a detholiad eang o gwmnïau lleol llai. Fe wnaethom sicrhau hefyd bod sefydliadau preifat a chyhoeddus ac awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yng nghylchrediad yr arolwg.

Cafodd y sefydliadau eu nodi drwy amrywiaeth o gyfryngau:

- Darparwyd rhestr gychwynnol o gwmnïau allweddol gan Lywodraeth Cymru, a chysylltwyd â phob un ar y rhestr.
- Cysylltodd Eunomia â chwmnïau rheoli gwastraff a nodwyd mewn astudiaethau blaenorol yn ymwneud â rheoli gwastraff yng Nghymru.
- Cafwyd rhestr o'r holl unigolion sydd wedi'u cofrestru fel cludwyr gwastraff yn y Green Compass Directory ac fe'i defnyddiwyd i gynyddu nifer y casglwyr gwastraff bach yn y sampl.
- Nodwyd a chysylltwyd ag awdurdodau lleol Cymru sy'n casglu gwastraff masnachol.
- Cafodd pob cwmni oedd â chofnodion yn Nata Ffurflenni Trwyddedau Gwastraff Llywodraeth Cymru (gwastraff a dderbyniwyd a gwastraff a symudwyd) eu cynnwys.
- Chwiliwyd am dermau allweddol fel "paper recycling company" a "commercial waste collection"yn Google ac Yell.com i gael lleoliadau yng Nghymru.

Gwahoddwyd 130 cwmni yn uniongyrchol i gymryd rhan yn yr arolwg drwy e-bost. Yn ogystal, gofynnwyd i gyrff cynrychioli cwmnïau rheoli gwastraff (e.e. CIWM) a sefydliadau sydd â chysylltiadau eang yn y sector (e.e. My Waste App) i ddosbarthu'r arolwg drwy eu cylchlythyron. Dosbarthwyd datganiad i'r wasg i'r wasg fasnach berthnasol hefyd.

### 2.1.3 Gweithredu'r Arolwg

Dosbarthwyd y gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg drwy e-bost gan Eunomia i 130 o gwmnïau perthnasol a nodwyd. Lle bo modd, cysylltwyd ag unigolyn penodol yn hytrach

na chyfeiriad e-bost cyffredinol. Aeth yr arolwg yn fyw ar 28 Chwefror 2020, ac anfonwyd y gwahoddiad cyntaf i gymryd rhan yn yr arolwg yr un diwrnod. Anfonwyd e-byst dilynol ar 9 a 12 Mawrth. Y dyddiad cau cychwynnol ar gyfer yr arolwg oedd 13 Mawrth 2020; fodd bynnag, anfonwyd e-byst dilynol ac fe wnaed galwadau dethol i ofyn am ragor o ymatebion, gyda'r arolwg yn cau ar 20 Mawrth.


## 2.2 Crynodeb o'r Canlyniadau

Roedd y gyfradd ymateb gyffredinol i'r arolwg ar-lein yn 16%, gyda 21 o gwmnïau'n darparu ymatebion. Mae'r dadansoddiad canlynol yn canolbwyntio ar y prif ganfyddiadau o'r arolwg. Mae rhestr o holl gwestiynau'r arolwg yn Atodiad A.1.0.

### 2.2.1 Dadansoddiad o Ymatebion yn ôl y Math o Sefydliad

Mae Ffigur 2-1 yn dangos dadansoddiad o'r mathau o sefydliadau a ymatebodd.

**Ffigur 2-1: C3 – Pa fath o sefydliad ydych chi?**




O'r 21 ymateb, roedd 71% yn gwmnïau sector preifat, 14% yn awdurdodau lleol, 10% yn sector cyhoeddus arall, a 5% yn sector dielw/trydydd sector. Gwahaniaethwyd yr ymatebwyr ymhellach fel a ganlyn:

- Mae 14 yn gwneud casgliadau gwastraff o safleoedd annomestig.
  - Mae pob un o'r rhain yn casglu o safleoedd adeiladu/dymchwel hefyd.
- Mae 11 yn gweithredu Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff.
  - Mae saith o'r rhain yn derbyn gwastraff tebyg i wastraff cartref o'u casgliad eu hunain a chan gasglwyr trydydd parti.
  - Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn derbyn gwastraff o safleoedd masnachol a diwydiannol, tra bod ychydig yn derbyn gwastraff o safleoedd adeiladu mawr hefyd.
- Mae pedwar yn gweithredu cyfleusterau didoli (MRFs).
- Mae tri yn gweithredu cyfleusterau ailgylchu gwastraff bwyd.

Ymysg y cwmnïau a oedd yn rhan o'r arolwg, roedd y trosiant blynyddol a oedd yn ymwneud â rheoli gwastraff annomestig yng Nghymru fel a ganlyn:

- Roedd gan bedwar cwmni drosiant blynyddol o hyd at £2 filiwn;
- Roedd gan ddau gwmni drosiant rhwng £2-£10 miliwn;
- Roedd gan ddau gwmni drosiant rhwng £10-£250 miliwn.

Roedd nifer y gweithwyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli gwastraff annomestig yng Nghymru ar gyfer y cwmnïau hyn fel a ganlyn:

- Roedd gan dri chwmni lai na 10 gweithiwr;
- Roedd gan dri chwmni rhwng 10 a 49 gweithiwr;
- Roedd gan ddau gwmni rhwng 50 a 249 gweithiwr.


Mae maint y sampl ar gyfer cwmnïau gyda chyfleusterau didoli ac ailgylchu gwastraff bwyd yn rhy fach i'w dadansoddi'n fanwl, ac felly rydym wedi darparu sylwadau ar y canlyniadau hyn yn hytrach na dadansoddiad o ymatebion. Mae'r dadansoddiad canlynol yn canolbwyntio ar y cwmnïau hynny sy'n casglu gwastraff neu'n gweithredu gorsafoedd trosglwyddo.

## 2.2.2 Casglu Gwastraff o Safleoedd Annomestig

### 2.2.2.1 Ffrydiau Gwastraff a Gesglir

Mae Ffigur 2-2 yn dangos y ffrydiau gwastraff sy'n cael eu casglu gan ymatebwyr, y darparodd 11 ohonynt ateb. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis cymaint o ffrydiau gwastraff ag oedd yn berthnasol iddynt.

**Ffigur 2-2: C5 – Pa ffrydiau gwastraff ydych chi'n eu casglu fel rhan o'ch casgliadau gwastraff annomestig?**




Y deunyddiau a gasglwyd fwyaf oedd gwastraff gweddilliol, papur/cerdyn ar wahân ac ailgylchu cymysg yn cynnwys gwydr – gyda'r olaf ychydig yn fwy cyffredin yng ngrŵp y sampl nag ailgylchu cymysg ac eithrio gwydr. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn casglu gwastraff bwyd ar wahân neu wydr ar wahân.

#### 2.2.2.2 Effaith Ailgylchu Sych Tair Ffrwd

Mae Ffigur 2-3 yn dangos canfyddiadau ymatebwyr o effaith cyflwyno gofyniad i wahanu ailgylchu sych i dair ffrwd. Dyma'r opsiwn mae Llywodraeth Cymru'n ei ffafrio fel y'i cyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Ystyriodd yr ymatebwyr bod y system yn debygol o arwain at gynnydd mewn costau – a fyddai'n cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid yn y farchnad gwastraff masnachol – ond ychydig oedd yn rhagweld unrhyw effaith o ran cystadleuaeth gyda chasglwyr gwastraff sefydledig neu newydd neu gyfranogiad yn y farchnad. Roedd llawer o ymatebwyr yn credu y byddent mewn sefyllfa well i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill yn hytrach na sefyllfa lai ffafriol i gystadlu â nhw. Roedd rhai yn rhagweld y byddai newydd-ddyfodiaid yn y farchnad yn arwain at gynnydd mewn cystadleuaeth.

**Ffigur 2-3: C7 – Pe bai gofyn i bob safle annomestig a phob safle Glanhau a Diheintio yng Nghymru wahanu ailgylchu sych yn dair ffrwd: papur/cerdyn, plastig/metel, a gwydr, a fyddai hyn yn newid...**




Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu sylwadau ychwanegol ar yr effaith bosibl ar eu busnes. Derbyniwyd y sylwadau canlynol, a oedd yn amlygu pryder yn arbennig ynghylch pa mor ddigonol yw gorfodaeth, ac economeg casgliadau ar wahân mewn ardaloedd gwledig:


- "Nid oes gan y casglwr unrhyw awdurdod i osod unrhyw fecanwaith ar y farchnad. Mae'r dewis i symud i ddarparwr rhatach â llai o reoleiddio yn bosibl. Nid yw dwysedd daearyddol isel yn ffafrio casgliadau ar wahân yn economaidd."

- “Y broblem fwyaf o ran cystadleuaeth yw diffyg cydymffurfiaeth busnesau casglu eraill.”
- “Mae’r gofyniad yn golygu y dylem allu codi tâl sy’n gwneud y gwasanaeth yn broffidiol. Rydym yn gwneud colled ar ailgylchu ar hyn o bryd, a gymorthdelir gan wasanaeth gweddilliol.”

### 2.2.2.3 Effaith Casglu Gwastraff Bwyd Ar Wahân

Mae Ffigur 2-4 yn dangos canfyddiadau ymatebwyr o effaith cyflwyno’r gofyniad i gasglu gwastraff bwyd ar wahân. Roedd 60% o ymatebwyr yn ystyried y byddai yna gynnydd mewn costau – a fyddai’n cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid yn y farchnad wastraff fasnachol, ond nid oedd 30% yn rhagweld unrhyw newid. Fel gyda’r newidiadau arfaethedig i gasgliadau ailgylchu sych, ychydig o ymatebwyr oedd yn rhagweld effeithiau negyddol iddynt o ran cystadleuaeth â chasglwyr gwastraff sefydledig, neu eu cyfranogiad yn y farchnad. Eto, ystyriwyd y bydd cynnydd mewn cystadleuaeth gan newydd-ddyfodiaid yn debygol, a all fod yn adlewyrchu’r gyfran gymharol fechan o ymatebwyr sy’n casglu gwastraff bwyd ar hyn o bryd.

**Ffigur 2-4: C8 - Pe bai gofyn i holl safleoedd annomestig Cymru wahanu gwastraff bwyd ar gyfer ailgylchu, a fyddai hyn yn newid...**




Dywedodd un gweithredwr y byddai’n tynnu allan o rai ardaloedd o Gymru pe bai gofyniad i wahanu gwastraff bwyd yn cael ei gyflwyno.

Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu sylwadau ychwanegol ar yr effaith bosibl ar eu busnes. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ddisgrifiadol ar y cyfan, yn hytrach na bod yn feirniadol neu’n gefnogol yn benodol i ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru:

- “Nid oes marchnad gystadleuol ar gyfer ailgylchu bwyd yng Nghymru.”
- “Mae AALlau mewn lle da i gynnig prisiau cystadleuol yn sgil bandiau tunelledd drwy gontractau treulio anaerobig.”

#### 2.2.2.4 Effaith Casgliadau Tecstilau Ar Wahân a WEEE Ar Wahân

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn disgwyl unrhyw effaith o ran cynnydd mewn costau a/neu incwm, cystadleuaeth gyda chasglwyr gwastraff sefydledig a newydd neu gyfranogiad yn y farchnad o ganlyniad i ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i'w gwneud hi'n ofynnol i gasglu tecstilau a WEEE ar wahân. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai ychydig o ymatebwyr sy'n casglu'r deunyddiau hyn ar wahân ar hyn o bryd (pump yn casglu WEEE, dau yn casglu tecstilau). Dywedodd un gweithredwr y byddai'n tynnu allan o rai ardaloedd o Gymru pe bai gofyniad i wahanu tecstilau neu WEEE yn cael ei gyflwyno.

Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu sylwadau ychwanegol ar yr effaith bosibl ar eu busnes. Derbyniwyd y sylwadau canlynol, sy'n dangos pryderon am lefel de minimis ac ymarferoldeb casglu ffrydiau gwastraff bach ar deithiau casglu presennol:

**O ran tecsitlau:**

- "Oes yna isafswm ar gyfer y gwasanaeth hwn? A phob gwasanaeth?"
- "Byddai "partner" trydydd sector yn cynnig gwasanaethau a chasglu'n annibynnol. Cyfle iddynt gael incwm ychwanegol a chefnogi modelau busnes gwerth chweil gyda manteision cymdeithasol."

**O ran WEEE:**


- "A fydd hwn yn cael ei reoleiddio fel casgliad peryglus?"
- "Mae cyd-gasglu â deunyddiau eraill yn broblem ar RCVs. Iawn i fusnesau llai os byddant yn casglu ar RRVs yn y dyfodol."

### 2.2.3 Busnesau'n Gweithredu Gorsaf Drosglwyddo

#### 2.2.3.1 Effaith Ailgylchu Sych Tair Ffrwd

Mae 2-5 yn dangos canfyddiadau ymatebwyr o effaith cyflwyno gofyniad i wahanu ailgylchu sych i dair ffrwd. Dyma'r opsiwn mae Llywodraeth Cymru'n ei ffafrio fel y'i cyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ystyried y byddai'r system yn debygol o arwain at gynnydd mewn costau o gymharu â gorsafoedd trosglwyddo eraill – a fyddai'n cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid yn y farchnad wastraff fasnachol. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn credu y byddai'r gofynion newydd yn gwella eu gallu i gystadlu â gorsafoedd trosglwyddo eraill. Nid oedd y rhan fwyaf yn rhagweld unrhyw newid o ran newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, na lefel eu cyfranogiad nhw yn y farchnad.

### Ffigur 2-5: C14 - Pe bai gofyn i bob safle annomestig a phob safle Glanhau a Diheintio yng Nghymru wahanu ailgylchu sych i dair prif ffrwd: papur/cerdyn, plastig/metel a gwydr, a fyddai hyn yn newid...





Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu sylwadau ychwanegol ar yr effaith bosibl ar eu busnes. Derbyniwyd y sylwadau canlynol, sydd eto'n dangos pryder am orfodi:

- "Diffyg cydymffurfiaeth busnesau eraill yw'r perygl mwyaf."
- "Rydym yn symud i system wahanu yn y ffynhonnell ym mis Medi 2021 felly nid oes effaith."

#### 2.2.3.2 Effaith Casglu Gwastraff Bwyd Ar Wahân

Mae Ffigur 2-4 yn dangos canfyddiadau ymatebwyr o effaith cyflwyno gofyniad i wahanu gwastraff bwyd. Roedd hanner yr ymatebwyr yn ystyried y byddai'r system yn debygol o arwain at gynnydd bychan mewn costau o gymharu â gorsafoedd trosglwyddo eraill – a allai gael ei adennill trwy incwm yn y farchnad wastraff fasnachol. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf yn rhagweld unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth â gorsafoedd trosglwyddo gwastraff eraill, gyda newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, na lefel eu cyfranogiad nhw yn y farchnad.

**Ffigur 2-4: C15 – Pe bai gofyn i bob safle annomestig a phob safle glanhau a diheintio mawr yng Nghymru wahanu gwastraff bwyd ar gyfer ailgylchu, a fyddai hyn yn newid...**




### 2.2.3.3 Effaith Casglu Tecstilau a WEEE ar wahân

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn disgwyl unrhyw effaith o ran cystadleuaeth gyda chasglwyr gwastraff sefydledig a newydd neu gyfranogiad yn y farchnad o ganlyniad i ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i'w gwneud hi'n ofynnol i gasglu tecstilau a WEEE ar wahân. Er bod rhai'n rhagweld cynnydd mewn costau, ni ystyriwyd y byddai hyn yn effeithio ar y gallu i gystadlu.

## 2.3 Gweithredwyr MRF a Gweithredwyr Triniaeth Gwastraff Bwyd

Cafwyd ychydig o ymatebion gan weithredwyr MRF a darparwyr triniaeth gwastraff bwyd.

Mae'r nifer fach o ymatebion yn ei gwneud hi'n amhosibl cynnal dadansoddiad manwl ac ystyrlon. Fodd bynnag, gellir crynhoi'r ymatebion fel a ganlyn:

- Cafwyd ymateb gan ddau weithredwr MRF.
    - Nid oedd y naill na'r llall yn rhagweld unrhyw newid i'w cyfranogiad yn y farchnad yng Nghymru;
    - Roedd un yn rhagweld mwy o gostau, ond nid oedd y llall yn credu y byddai unrhyw newid.
    - Roedd un yn rhagweld mwy o gystadleuaeth gan newydd-ddyfodiaid, ond nid oedd y llall yn credu y byddai unrhyw newid.
    - Roedd un yn credu y byddai ei allu i gystadlu'n gwella, ond nid oedd y llall yn credu y byddai unrhyw newid.
- Cafwyd ymateb gan ddau ddarparwr triniaeth gwastraff bwyd.

    - Nid oedd y naill na'r llall yn credu y byddai eu costau na'u gallu i gystadlu'n newid.
    - Roedd un yn rhagweld mwy o gystadleuaeth gan newydd-ddyfodiaid, ond nid oedd y llall yn credu y byddai unrhyw newid.
    - Roedd un yn rhagweld y byddai'n cynyddu ei gyfranogiad yn y farchnad yng Nghymru, ond nid oedd y llall yn credu y byddai unrhyw newid.

Nid yw'r ymatebion hyn yn dangos unrhyw bryderon sylweddol gan y diwydiant am effeithiau cystadleuaeth.

## 2.4 Sylwadau Cyffredinol gan Ymatebwyr

Cafodd ymatebwyr gyfle i ddarparu unrhyw sylwadau cyffredinol ar effeithiau cystadleurwydd. Dewisodd pedwar wneud hynny, er nid oedd yr un o'r sylwadau'n ymwneud â chwestiwn cystadleurwydd yn uniongyrchol.

- Gofynnodd un a fyddai yna gyllid i gefnogi casglwyr y sector preifat i gyflwyno casgliadau ar wahân.
- Gofynnodd un a ddylai'r arolwg roi sylw i effeithiau'r gwaharddiad arfaethedig ar anfon rhai mathau o wastraff i safleoedd tirlenwi.
- Soniodd dau am yr angen am orfodi effeithiol. Cododd hyn fater yn ymwneud â chystadleuaeth, gan fod casglwyr yn bryderus y byddai cystadleuwyr nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd yn codi prisiau is na nhw.
- Gofynnodd un am gadarnhad o ddyddiad gweithredu arfaethedig y ddeddfwriaeth, gan nodi bod angen amser i gael cynwysyddion newydd.

## 2.5 Safbwyntiau a Fynegwyd gan Sefydliadau Rheoli Gwastraff yng Nghynhadledd Economi Gylchol Cymru

Yn ystod cyflwyniad gan Jane Hall o MyWasteApp yng Nghynhadledd Economi Gylchol Cymru ar 28 Chwefror 2020 holwyd ychydig o gwestiynau allweddol i'r gynulleidfa a ysbrydolwyd gan yr arolwg yr adroddir am ei ganlyniadau uchod. Ni wyddom unrhyw wybodaeth benodol am y mynychwyr a gymerodd ran yn y pôl byw, ac roedd y cwestiynau wedi'u geirio'n wahanol i'r arolwg uchod, felly ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol; ond mae'r canlyniadau'n cynnig pwynt data ychwanegol ynghylch effeithiau canfyddedig ar gystadleurwydd.

Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Dywedodd 76% o 33 o ymatebwyr y byddai gofyniad i'w busnes wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cynyddu eu costau gweithredu.
- Dywedodd 54% o 26 o ymatebwyr na fyddai gwahanu ychwanegol yn y ffynhonnell yn effeithio ar eu gallu i gystadlu â chwmnïau gwastraff eraill. Dywedodd 31% arall y byddai gwahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn gwella eu gallu i gystadlu, gyda dim ond 15% yn datgan y byddai'n gwaethygu eu gallu i gystadlu.
- Roedd y farn yn amrywio ar sut y byddai gwahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn effeithio ar broffidioldeb. O'r 24 o ymatebwyr:

- dywedodd 37.5% y byddai'n lleihau eu proffidioldeb;
- dywedodd 33% na fyddai unrhyw newid;
- dywedodd 29% y byddai'n cynyddu eu proffidioldeb.

Mae canlyniadau'r pôl anffurfiol hwn yn eithaf cyson â chanfyddiadau'r arolwg, gyda barn eang y byddai costau'n cynyddu, ond cymharol ychydig o bryder ynghylch effeithiau ar gystadleurwydd.

Fodd bynnag, pleidleisiwyd ar y cwestiynau yn fyw, gyda chyfranogwyr yn cael fawr o amser i fyfyrio ar effeithiau posibl y ddeddfwriaeth arfaethedig. Dylid trin y canlyniadau gyda rhywfaint o ofal felly.

## 2.6 Crynodeb a Chasgliadau

Mae cyfradd ymateb yr arolwg o 16% o fewn yr amrediad nodweddiadol ar gyfer ymarferion o'r fath ond mae'n cynrychioli lefel gymharol isel o ymgysylltu gan y sector. O ystyried yr ymdrechion a wnaed i gyrraedd cymaint o sefydliadau â phosibl, efallai fod lefel isel o ymgysylltu'n dangos y lefel gymharol isel o bryder ynghylch effeithiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar gystadleuaeth yn y farchnad rheoli gwastraff.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn adlewyrchiad cymharol resymol o nifer y busnesau sy'n rhan o wahanol weithgareddau rheoli gwastraff ledled Cymru – yn gyffredinol, casglwyr gwastraff yw'r mwyaf niferus, gyda gweithredwyr gweithfeydd didoli a darparwyr triniaeth gwastraff bwyd y lleiaf niferus.

Gyda chyfradd ymateb isel, gallai rhywun ddisgwyl y byddai'r ymatebion yn dod gan y busnesau sydd â'r pryderon mwyaf am effeithiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Fodd bynnag, ychydig o'r ymatebion a ddatgelodd ddisgwyliad ar ran yr ymatebydd y byddai'n gadael neu'n lleihau ei gyfranogiad ym marchnad Cymru.

Roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr ar draws gwahanol agweddau ar reoli gwastraff yn credu y byddai costau'n cynyddu. Fodd bynnag, mae ymatebwyr yn ymddangos yn hyderus o'u gallu i gystadlu o fewn y farchnad newydd, er gwaethaf eu bod yn disgwyl gweld cystadleuwyr newydd. Mae atebion ymatebwyr yn cyfleu sefyllfa sy'n disgwyl gweld cynnydd mewn cystadleuaeth yn y farchnad, nid gostyngiad. Gall hyn fod yn bryder i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar hyn o bryd ond mae'n awgrymu nad oes rheswm cryf i gredu y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth yn y diwydiant gwastraff.

# 3.0 Cyfweliadau gyda Gweithgynhyrchwyr a Effeithir gan y Gwaharddiad Gwastraff Bwyd i Garthffos

## 3.1 Methodoleg

### 3.1.1 Cynllun Cyfweliadau

Gofynnwyd yr un cwestiynau i bawb yn ystod y cyfweliadau. Mae cwestiynau'r cyfweliad wedi'u rhestru yn Atodiad A.2.0.

Y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau oedd:

- BioHiTech
- Mechline
- IMC
- Foodservice Equipment Association
- Ymgynghorydd dienw

Ychydig o fusnesau sy'n gweithredu yn y farchnad hon, ac felly mae'r ymatebwyr yn cynrychioli cyfran sylweddol iawn o'r rhai a effeithir gan y ddeddfwriaeth arfaethedig.

### 3.1.2 Dull Dadansoddi

Er mwyn darparu canlyniadau mesuradwy i Lywodraeth Cymru o'r arolwg oedd yn ansoddol yn bennaf mae Eunomia wedi rhoi sgôr rhifiadol i atebion yr ymatebwyr. Eglurir y mecanwaith sgorio a ddefnyddiwyd ar gyfer pob cwestiwn yn yr adrannau isod. Yn ogystal, mae gwybodaeth wedi'i chynnwys am y sylwadau penodol a wnaed gan yr ymatebwyr.

## 3.2 Canlyniadau'r Cyfweliadau

### 3.2.1 Cwestiynau am Gyfranogwyr y Cyfweliadau

Mae Tabl 3-1 yn cynnwys gwybodaeth gryno am y busnesau a holwyd. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys amrywiaeth o fusnesau a effeithir gan y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys gweithgynhyrchwyr offer malu, peiriannau dad-ddyfrio, cynhyrchwyr treuliwr ensymau, a chyflenwyr masnach. Mae'r holl fusnesau'n gweithredu o fewn marchnad ehangach y DU yn ogystal ag yng Nghymru.

### Tabl 3-1: Busnesau a Holwyd

| Cwmni | Cynhyrchion a weithgynhyrchir/a werthir | Nifer y gweithwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r gweithgareddau busnes | Amcan o drosiant blynyddol y DU yn ymwneud â chynhyrchion |
|---|---|---|---|
| **BioHiTech** | Cangen Ewropeaidd o gwmni o'r UD sy'n trin gwastraff bwyd mewn gwahanol ffyrdd. Gweithgynhyrchu a gwerthu treulwyr ensymau; gweithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion sydd eu hangen ar gyfer gweithredu cyfarpar treuliwr ensymau; gwerthu gwasanaethau i gefnogi gweithrediad y cyfarpar hwn. | Cyflogi 8 o bobl yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol | Llai na £1 miliwn |
| **Mechline** | Gweithgynhyrchu detholiad o gynhyrchion ar gyfer y diwydiant gwasanaeth bwyd a lletygarwch, yn cynnwys bio-dreulwyr | Gwefan yn dangos 48 o weithwyr; anodd amcangyfrif faint o swyddi sy'n dibynnu ar fio-dreulwyr | ~£0.5 miliwn |
| **IMC** | Gweithgynhyrchu a gwerthu offer malu a pheiriannau dad-ddyfrio; a chyfarpar rheoli gwastraff arall yn cynnwys cywasgwyr. Wedi'i leoli yn Wrecsam. | Cyflogi 14 o bobl yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol | ~£1.1 miliwn |
| **Foodservice Equipment Association** | Cymdeithas fasnach | d/b | d/b |
| **Ymgynghoriaeth ddienw** | Ymgynghorydd yn cynrychioli cyflenwyr cyfarpar a gweithgynhyrchwyr a effeithir gan y ddeddfwriaeth arfaethedig | d/b | d/b |

### 3.2.2 Effeithiau'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos

Mae Tabl 3-2 yn dangos yr atebion a roddwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 5 yr arolwg, ynghylch y gwaharddiad arfaethedig ar waredu gwastraff bwyd i garthffos.

Y system sgorio a ddefnyddiwyd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd system raddio o 1-5, lle mae 1 yn cynrychioli effaith ddifrifol neu negyddol, a 5 yn cynrychioli fawr ddim effaith.

Ymatebodd dau sefydliad i'r cwestiynau hyn. Dywedodd y ddau y byddai'r gwaharddiad yn cael effaith negyddol sylweddol ar allu'r busnes i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i'r garthffos mewn perthynas â marchnad Cymru. Roedd ymatebwyr yn rhagweld effaith sylweddol debyg ar werthiant cynhyrchion sydd eu hangen i weithredu'r cyfarpar hwn. Ymatebodd un sefydliad ymhellach ynglŷn â'r effaith ddisgwyliedig ar werthiant gwasanaethau mewn perthynas â'r math  hwn o gyfarpar, gan gadarnhau ei fod yn disgwyl iddo effeithio'n sylweddol ar yr agwedd hon ar eu busnes yng Nghymru.

Yn gyffredinol, rhagwelwyd effaith sylweddol ar gyfranogiad y cwmnïau hyn yn y busnes trin gwastraff bwyd yng Nghymru. Fodd bynnag, soniodd un o'r ddau sefydliad hefyd am yr effaith ar ei allu i gystadlu ym marchnad ehangach y DU. Yma, roedd disgwyl i'r effeithiau fod yn llawer llai, wedi'u graddio ar 4 neu 5 ar gyfer y cynhyrchion a'r gwasanaethau perthnasol. Mae'r sgoriau hyn yn adlewyrchu sefyllfa lle mae'r cwmni'n rhagweld y gallai barhau i weithio ym marchnad fwy y DU, er gwaethaf gwaharddiad yng Nghymru.

**Tabl 3-2. Ymatebion i Gwestiynau 5a-d**

| Cwestiynau | Ymatebion rhanddeiliaid | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | BioHiTech | Mechline | IMC | Foodservice Equipment Association (FEA) | Ymgynghoriaeth Ddi-enw |
| **5) Os na fyddai defnyddio offer malu i drin gwastraff bwyd wedi'i wahanu yn y ffynhonnell a gynhyrchir gan safleoedd masnachol yng Nghymru'n cael ei eithrio o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos, a fyddai hyn yn:** | | | | | |
| a) Eich arwain i newid eich cyfranogiad yn y busnes trin gwastraff bwyd | d/b | d/b | Y DU gyfan: 5<br>Cymru: 2 | Cymru: 2 | d/b |
| b) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i'r garthffos | d/b | d/b | Y DU gyfan: 5<br>Cymru: 2 | Cymru: 1 | d/b |
| c) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion sydd eu hangen ar gyfer gweithredu cyfarpar a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i garthffos | d/b | d/b | Y DU gyfan: 4<br>Cymru: 2 | Cymru: 2 | d/b |
| d) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â gweithredu cyfarpar a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i garthffos | d/b | d/b | d/b | Cymru: 2 | d/b |

**Nodiadau:**

Defnyddir system raddio 1-5 fel system sgorio, gydag 1 yn cynrychioli effaith ddifrifol neu negyddol, a 5 yn cynrychioli fawr ddim effaith.

Mae Tabl 3-3 yn dangos yr atebion a roddwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 6 yr arolwg, ynghylch y gwaharddiad arfaethedig ar ddad-ddyfrwyr.

Dim ond un wnaeth ymateb i'r cwestiynau hyn - busnes a oedd yn gwerthu offer malu a thechnoleg dad-ddyfrio i farchnad y DU gyfan. Roedd y cyfranogwr yn disgwyl y byddai effaith peidio ag eithrio technoleg dad-ddyfrio o'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos yn fwy na'r effaith ar gyfer offer malu ledled y DU. Y rheswm am hyn oedd bod y cyntaf yn dechnoleg ddrutach, a bod y busnes yn pryderu y gallai gwaharddiad yng Nghymru arwain at ansicrwydd ymysg cwsmeriaid yn Lloegr, a allai ragweld cyflwyno gwaharddiad tebyg ar wastraff bwyd i garthffos yno, gan eu gwneud yn amharod i fuddsoddi'n sylweddol yn y dechnoleg.

Rhagwelwyd effaith debyg ar gyfer gwerthiant y cyfarpar cysylltiedig sydd ei angen ar gyfer gweithredu'r cyfarpar dad-ddyfrio (er nad oedd y sefydliad dan sylw'n gwerthu gwasanaethau yn y sector hwn). Yn gyffredinol, roedd disgwyl i'r penderfyniad i beidio ag eithrio dad-ddyfrwyr o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos gael effaith gymedrol ar gyfranogiad y sefydliad hwn yn y busnes trin gwastraff bwyd yn y DU yn gyffredinol. I'r gwrthwyneb, nid oedd disgwyl i'r penderfyniad i beidio ag eithrio offer malu o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos gael fawr o effaith ar fusnes DU gyfan yr un sefydliad.

Mae Tabl 3-4 yn dangos yr atebion a gafwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 7 yr arolwg, ynghylch peidio ag eithrio treulwyr ensymau o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos.

Ymatebodd dau sefydliad i'r cwestiynau ar dreulwyr ensymau. Dywedodd y ddau fod y gwaharddiad arfaethedig ar wastraff bwyd i garthffos wedi newid eu cyfranogiad ym marchnad Cymru'n sylweddol eisoes, a'u bod wedi gadael marchnad Cymru yn sgil gostyngiad sylweddol yn nifer y cwsmeriaid posibl yng Nghymru sy'n barod i fentro buddsoddi'n sylweddol yn eu technoleg. Roeddynt yn rhagweld y byddai'r effeithiau ar eu gallu i gystadlu ym marchnad y DU yn llai sylweddol, fodd bynnag, yn sgil maint cymharol marchnad y DU o gymharu â Chymru. Roedd gan y ddau sefydliad farn ychydig yn wahanol i'w gilydd, fodd bynnag, o ran y graddau y byddai'r gwaharddiad yn effeithio ar allu'r busnes i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu treulwyr ensymau ym marchnad y DU/Lloegr:

- Dywedodd un y byddai'r gwaharddiad yn effeithio'n sylweddol ar ei allu i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu treulwyr ensymau ac roedd yn credu y byddai rhywfaint o'r effaith yn cael ei theimlo ledled y DU. Y rheswm am hyn oedd pryder y gallai gwaharddiad ar wastraf bwyd i garthffos yng Nghymru arwain at ansicrwydd ym marchnad Lloegr, gan leihau y ffrwd refeniw. Fodd bynnag roedd disgwyl i'r effaith fod yn gymedrol.
- Mynegodd y llall bryderon am yr effaith ganlyniadol ym marchnad Lloegr, a allai effeithio ar ei allu i gystadlu yn sgil llai o broffidioldeb, ond roedd yn credu bod y tebygolrwydd o hyn yn digwydd yn gymharol isel – gan roi sgôr gyfatebol is i'r effaith gyffredinol.

Mae'r ddau sefydliad yn rhagweld y byddai'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gyflenwi cyfarpar a gwasanaethau ar gyfer treulwyr ensymau yng Nghymru, ond roeddynt yn credu y byddai'r effaith yn llawer llai ar

farchnad y DU yn ei chyfanrwydd, yn sgil maint cymharol marchnad y DU. Dywedodd y ddau ymatebydd y byddai'r refeniw is yn effeithio ar eu gallu i gystadlu a'u gallu i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu.

### Tabl 3-3. Ymatebion i Gwestiynau 6a-d

| Cwestiynau | Ymatebion rhanddeiliaid | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | BioHiTech | Mechline | IMC | Foodservice Equipment Association | Ymgynghoriaeth Ddi-enw |
| **6. Os na fydd defnyddio cyfarpar dad-ddyfrio i drin gwastraff bwyd wedi'i wahanu yn y ffynhonnell a gynhyrchir gan safleoedd masnachol yng Nghymru'n cael ei eithrio o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos, a fyddai hyn yn:** | | | | | |
| a) Eich arwain i newid eich cyfranogiad yn y busnes trin gwastraff bwyd | | | Y DU gyfan: 3 | | |
| b) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i'r garthffos | | | Y DU gyfan: 3 | | |
| c) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion sydd eu hangen ar gyfer gweithredu cyfarpar a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i garthffos | | | Y DU gyfan: 3 | | |
| d) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â gweithredu cyfarpar a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i garthffos | | | d/b | | |

**Tabl 3-4. Ymatebion i Gwestiynau 7a-d**

| Cwestiynau | Ymatebion rhanddeiliaid | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | BioHiTech | Mechline | IMC | Foodservice Equipment Association | Ymgynghoriaeth Ddi-enw |
| **7. Os na fyddai defnyddio treulwyr ensymau i drin gwastraff bwyd wedi'i wahanu yn y ffynhonnell gan safleoedd masnachol yng Nghymru'n cael ei eithrio o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos, a fyddai hyn yn:** | | | | | |
| a) Eich arwain i newid eich cyfranogiad yn y busnes trin gwastraff bwyd | Y DU gyfan: 4<br>Cymru: 1 | Y DU gyfan: 4<br>Cymru: 1 | | | |
| b) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i'r garthffos | Y DU gyfan: 4<br>Cymru: 1 | Y DU gyfan: 1 | | | |
| c) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion sydd eu hangen ar gyfer gweithredu cyfarpar a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i garthffos | Y DU gyfan: 4<br>Cymru: 1 | Y DU gyfan: 3<br>Cymru: 1 | | | d/b |
| d) Effeithio ar eich gallu i gystadlu ag eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â gweithredu cyfarpar a gynlluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i garthffos | Y DU gyfan: 4<br>Cymru: 1 | d/b | | | d/b |

Mae Tabl 3-5 yn dangos yr atebion a gafwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 8 yr arolwg. Roedd y cwestiwn yn ymwneud â'r ardal ddaearyddol y byddai'r busnes yn gallu cyflenwi gwasanaethau iddi pe cyflwynid gwaharddiad.

Defnyddir system raddio o 1-3 yma, gydag 1 yn cynrychioli effaith ddifrifol neu negyddol, a 3 yn cynrychioli fawr ddim effaith.

Atebodd holl gyfranogwyr yr arolwg y cwestiynau hyn. Roedd pawb yn rhagweld y byddai'r gwaharddiad yn cyfyngu'r ardal lle y gallai'r busnes gyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â marchnad Cymru'n sylweddol, gyda'r gwaharddiad yn eu harwain i dynnu'n ôl o'r farchnad. Fodd bynnag, roedd disgwyl i'r effeithiau ar farchnad y DU gyfan fod yn llai sylweddol i'r busnesau a effeithir.

**Tabl 3-5. Ymatebion i Gwestiynau 8a-d**

| Cwestiynau | Ymatebion rhanddeiliaid | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | BioHiTech | Mechline | IMC | Foodservice Equipment Association | Ymgynghoriaeth Ddi-enw |
| 8. **I ba raddau fyddai'r rheoliadau newydd yn cyfyngu'r ardal ddaearyddol lle y gallai eich busnes gyflenwi ei wasanaethau os na fyddai'r holl safleoedd masnachol yng Nghymru sy'n defnyddio'r cyfarpar canlynol i drin gwastraff bwyd wedi'i wahanu yn y ffynhonnell yn cael eu heithrio o'r gwaharddiad r wastraff bwyd i garthffos:** | | | | | |
| a) Offer malu – naill ai fel darn o gyfarpar annibynnol neu ar y cyd â chyfarpar arall fel peiriant dad-ddyfrio? | | | Y DU gyfan: 3<br>Cymru: 1 | Y DU gyfan: 3<br>Cymru: 1 | Cymru: 1 |
| b) Peiriannau dad-ddyfrio – naill ai fel darn o gyfarpar annibynnol neu ar y cyd â chyfarpar arall fel offer malu? | | | Y DU gyfan: 3<br>Cymru: 1 | Y DU gyfan: 3<br>Cymru: 1 | Cymru: 1 |
| c) Treulwyr ensymau? | Y DU gyfan: 2<br>Cymru: 1 | Y DU gyfan: 3<br>Cymru: 1 | d/b | Y DU gyfan: 3<br>Cymru: 1 | Cymru: 1 |

Ailadroddodd cyflenwyr technoleg treulwyr ensymau y pwynt y gallai'r gwaharddiad yng Nghymru effeithio ar farchnad y DU gyfan, o ganlyniad i ansicrwydd a fyddai Lloegr yn dilyn yr un patrwm. Dywedodd un cyflenwr sy'n derbyn nawdd ariannol rhyngwladol y gallai'r gwaharddiad yng Nghymru atal y rhiant gwmni rhag buddsoddi ym marchnad y DU yn y dyfodol.

### 3.2.3 Sylwadau Ychwanegol a Ddarparwyd yn y Cyfweliadau

Roedd yr holl ymatebwyr yn ystyried bod y technolegau a allai gael eu heffeithio gan y gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos yn ategol i gasgliadau gwastraff ar garreg y drws. Roeddynt yn dweud nad Treulio Anaerobig, sef y dull trin tebygol ar gyfer gwastraff bwyd a gesglir ar wahân, yw'r opsiwn mwyaf ecogyfeillgar bob tro. Un enghraifft a roddwyd oedd cegin fasnachol mewn ardal wledig/anhygyrch, lle byddai angen teithio'n bell i gasglu gwastraff bwyd. Enghraifft arall oedd sefydliadau gyda phryderon hylendid, fel ceginau ysbytai, lle byddai angen casglu gwastraff bwyd bob dydd. Roedd yr ymatebwyr yn credu bod eu technolegau'n opsiwn mwy darbodus o dan amgylchiadau o'r fath.

Dywedodd yr FEA fod technoleg dad-ddyfrio yn ffordd o leihau crynswth gwastraff bwyd yn sylweddol, ac yn gwneud y gwastraff bwyd yn stoc porthiant mwy gwerthfawr pan mae'n cael ei anfon ar gyfer treulio anaerobig. Dywedodd y byddai unrhyw waharddiad ar y dechnoleg hon yn cael effaith andwyol sylweddol ar y diwydiant treulio anaerobig gan y byddai'r gwastraff yn cynnwys dŵr yn bennaf, a chyfeiriodd at Ogledd Iwerddon fel enghraifft, sy'n parhau i ganiatáu technoleg dad-ddyfrio er bod offer malu wedi'i wahardd.

Mynegodd BioHiTech a'r FEA bryderon hefyd fod technolegau treuliwr ensymau'n cael eu hystyried yn debyg i dechnoleg offer malu. Roeddynt yn dweud bod yr elifion sy'n cael eu cynhyrchu gan offer malu yn wahanol i elifion treulwyr ensymau, ac na ddylid ystyried y technolegau'n debyg.

Hefyd, mynegwyd pryderon am ansawdd y wybodaeth a oedd yn sail i ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru; yr ymchwil a'r adroddiadau newydd ar dechnoleg ac achosion o flocio mewn carthffosydd sydd wedi ymddangos yn yr amser ers i'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei chreu; a'r pryderon fod lobi o blaid treulio anaerobig wedi dylanwadu ar y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Darparodd rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddogfennau ategol yn cadarnhau pwysigrwydd eu technolegau ac yn gofyn am drafodaeth uniongyrchol bellach gyda Llywodraeth Cymru am yr effeithiau ar eu busnesau.

## 3.3 Crynodeb a Chasgliadau

Oherwydd natur y ddeddfwriaeth arfaethedig a ystyriwyd yn yr astudiaeth hon, sy'n gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos, ac felly'n effeithio ar y technolegau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ymatebwyr, roedd yn ddealladwy bod eu hymatebion yn rhagweld effaith sylweddol ar eu gallu i weithredu ym marchnad Cymru. Mewn rhai achosion, gwelwyd effeithiau eisoes, gyda busnesau'n gadael (neu'n bwriadu gadael) marchnad Cymru yn achos rhai cynhyrchion. Fodd bynnag, thema gyffredin ymysg yr holl ymatebwyr oedd y byddai unrhyw effaith ar eu busnes DU gyfan yn gymharol isel oherwydd bod marchnad Cymru'n fach.

Roedd ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd gwahanu eu pryderon am eu mynediad i'r farchnad a chwestiynau am effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig ar eu gallu cyffredinol i gystadlu. Yn amlwg, bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei gwneud hi'n amhosibl i dechnolegau gwastraff bwyd i garthffos gystadlu â chasglu ar garreg y drws – yn wir, dyma'r nod a fwriadwyd. Fodd bynnag, mae gan bob ymatebydd weithgareddau busnes ehangach – technolegau a marchnadoedd eraill. Er bod rhai ymatebwyr yn mynegi pryder am yr effaith ar eu gallu i gystadlu mewn mannau eraill yn y DU, roedd hyn yn seiliedig ar gred y

gallai darpar gwsmeriaid fod yn bryderus am y posibilrwydd y gallai llywodraethau cenedlaethol eraill gyflwyno mesurau tebyg. Fodd bynnag, mae llawer o'r pryder hwn yn ymwneud â gostyngiad ym maint cyffredinol y farchnad ar gyfer gwastraff bwyd i dechnolegau carthffos, yn hytrach na'u gallu i gystadlu ynddi. Yr eithriad oedd cyflenwr cyfarpar dad-ddyfrio, a ddywedodd fod cost buddsoddi uwch ei dechnoleg, o gymharu â thechnolegau gwastraff bwyd i garthffos eraill, yn golygu y byddai ei allu i gystadlu ym marchnad ehangach y DU yn cael ei effeithio fwy gan ansicrwydd nag a fyddai'r effaith ar gyflenwyr technolegau eraill.

Dywedodd pob busnes ym mhob technoleg y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael effaith sylweddol ar Gymru. Cafodd ymateb pob busnes sgôr o 2 neu is ar gyfer effeithiau Cymru-benodol y ddeddfwriaeth arfaethedig, gyda'r rhan fwyaf yn sgorio 1 – y lefel uchaf o effaith negyddol.

Dywedodd gweithgynhyrchwyr technoleg treulio ensymau y byddai unrhyw ostyngiad mewn refeniw yn sgil tynnu'n ôl o farchnad Cymru'n arwain at lai o fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, a allai leihau gallu'r busnes i gystadlu mewn agweddau eraill ar eu busnes yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd yr effaith gyffredinol ar fusnesau a chyflogaeth yng Nghymru sy'n deillio o'r gwaharddiad arfaethedig ar wastraff bwyd i garthffos yn gymharol isel. Roedd trosiant blynyddol ymatebwyr yn amrywio o ~£0.5 miliwn i ~£1.1 miliwn, gydag amcangyfrif o 30-50 o weithwyr yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â chynhyrchion gwastraff bwyd i garthffos.

Efallai fod yna fusnesau eraill yn gwerthu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r cyfarpar (y mae eu safbwyntiau wedi'u cynrychioli gan yr FEA i ryw raddau); fodd bynnag, mae'n debygol fod y farchnad hon yn fach hefyd, o ystyried maint y farchnad ar gyfer gwerthu cyfarpar yn uniongyrchol.

# ATODIADAU

## A.1.0 Cwestiynau arolwg

Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Nod yr arolwg yw deall sut y gallai deddfwriaeth newydd arfaethedig i gynyddu ailgylchu mewn eiddo annomestig yng Nghymru effeithio ar weithredoedd rheoli gwastraff eich sefydliad. Bydd eich mewnbwn yn cyfrannu at yr ymgynghoriadau parhaus â rhanddeiliaid ynghylch y newidiadau mewn cystadleuaeth a allai ddeillio o roi Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ar waith. Mae'r arolwg yn rhan o'r Dadansoddiad Effaith Rheoleiddiol o gyflwyniad arfaethedig y ddeddfwriaeth Newydd.

Mae'r arolwg yn rhan o brosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei gynnal gan Eunomia Research & Consulting. Dim ond at ddibenion y prosiect ymchwil y bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio.

Dilynwch y ddolen i weld llythyr cefnogi gan Lywodraeth Cymru a Thelerau Preifatrwydd Cymru. Gallwch gysylltu â ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@llyw.cymru os ydych chi am drafod y defnydd o'ch data ymhellach neu os ydych chi am dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Dylai'r arolwg gymryd llai na 15 munud i'w gwblhau.

Cwblhewch yr arolwg erbyn 5pm ar 6 Mawrth. Diolch!

### A.1.1 Beth yw enw'r sefydliad?

### A.1.2 Beth yw cyfeiriad eich sefydliad?

### A.1.3 *Pa fath o sefydliad ydych chi?

- Awdurdod lleol
- Sector cyhoeddus
- Sector preifat
- Nid-er-elw / trydydd sector
- Arall (manylwch)

### A.1.4 Ydych chi'n casglu gwastraff o eiddo annomestig?

- Ydym
- Nac ydym

## A.1.5 Pa ffrydiau gwastraff ydych chi'n eu casglu fel rhan o'ch casgliadau gwastraff annomestig? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- gwastraff gweddilliol
- ailgylchu cymysg, gan gynnwys gwydr
- ailgylchu cymysg, heblaw am wydr
- papur/cerdyn ar wahân
- gwydr ar wahân
- tuniau a photeli plastig (cymysg)
- tuniau a photeli plastig, potiau, tybiau a hambyrddau (cymysg)
- tuniau a photeli plastig, potiau, tybiau, hambyrddau a ffilm (cymysg)
- poteli plastig fel ffrwd ar wahân
- ffilm blastig fel ffrwd ar wahân
- plastigion anhyblyg cymysg (poteli, potiau, tybiau, hambyrddau) fel ffrwd ar wahân
- plastigion cymysg (poteli, potiau, tybiau, hambyrddau, ffilm) fel ffrwd ar wahân
- tuniau ar wahân
- gwastraff bwyd ar wahân
- cyfarpar electronig a thrydanol ar wahân
- tecstilau ar wahân

## A.1.6 Ydych chi'n casglu'r mathau o wastraff a grybwyllir uchod o safleoedd adeiladu / dymchwel adeiladau?

- Ydym
- Nac ydym

## A.1.7 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau yng Nghymru <u>wahanu ailgylchu sych i dair ffrwd</u>: papur/cerdyn, plastig/metel a gwydr, a fyddai hyn yn newid...

### A.1.7.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.8 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig arall yng Nghymru wahanu gwastraff bwyd ar gyfer ailgylchu, fyddai hyn yn newid...

### A.1.8.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.9 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig arall yng Nghymru wahanu gwastraff tecstilau ar gyfer ailgylchu, fyddai hyn yn newid...

### A.1.9.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.10 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig arall yng Nghymru wahanu cyfarpar electronig a thrydanol gwastraff ar gyfer ailgylchu, fyddai hyn yn newid...

### A.1.10.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.11 Ydych chi'n gweithredu gorsaf drosglwyddo lle'r ydych yn derbyn gwastraff tebyg i wastraff cartrefi o'ch:

- gwasanaeth casglu eich hun
- trydydd partïon
- eich gwasanaeth casglu eich hun a thrydydd partïon

- Nid wyf yn gweithredu gorsaf drosglwyddo

## A.1.12 O ba rai o’r ffynonellau canlynol ydych chi’n derbyn gwastraff? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

- Safleoedd masnachol
- Safleoedd diwydiannol
- Safleoedd adeiladu mawr

## A.1.13 Pa rai o’r ffrydiau canlynol ydych chi’n eu derbyn o ffynonellau annomestig? Dewiswch bob un sy’n gymwys.

- gwastraff gweddilliol
- ailgylchu cymysg, gan gynnwys gwydr
- ailgylchu cymysg, heblaw am wydr
- papur/cerdyn ar wahân
- gwydr ar wahân
- tuniau a photeli plastig (cymysg)
- tuniau a photeli plastig, potiau, tybiau a hambyrddau (cymysg)
- tuniau a photeli plastig, potiau, tybiau, hambyrddau a ffilm (cymysg)
- poteli plastig fel ffrwd ar wahân
- ffilm blastig fel ffrwd ar wahân
- plastigion anhyblyg cymysg (poteli, potiau, tybiau, hambyrddau) fel ffrwd ar wahân
- plastigion cymysg (poteli, potiau, tybiau, hambyrddau, ffilm) fel ffrwd ar wahân
- tuniau ar wahân
- gwastraff bwyd ar wahân
- cyfarpar electronig a thrydanol ar wahân
- tecstilau ar wahân

## A.1.14 Pe bai’n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru wahanu ailgylchu sych i dair ffrwd: papur/cerdyn, plastig/metel a gwydr, a fyddai hyn yn newid...

### A.1.14.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.15 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru wahanu gwastraff bwyd ar gyfer ailgylchu, a fyddai hyn yn newid...

### A.1.15.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.16 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru wahanu gwastraff tecstilau ar gyfer ailgylchu, a fyddai hyn yn newid...

### A.1.16.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.17 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru wahanu gwastraff cyfarpar electronig a thrydanol ar gyfer ailgylchu, a fyddai hyn yn newid...

### A.1.17.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...eich gallu i gystadlu â chasglwyr gwastraff eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad mewn casglu gwastraff masnachol?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.18 *Ydych chi'n gweithredu cyfleuster didoli sy'n derbyn gwastraff annomestig?

- Ydym
- Nac ydym

## A.1.19 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru wahanu ailgylchu sych i dair ffrwd: papur/cerdyn, plastig/metel a gwydr, a fyddai hyn yn newid...

### A.1.19.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- ...eich costau a/neu incwm o gymharu â gweithredwyr MRF eraill?
- ...eich gallu i gystadlu â gweithredwyr MRF eraill?
- ...y gystadleuaeth y mae eich busnes yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad yn y busnes MRF
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes.

## A.1.20 Ydych chi'n gweithredu cyfleuster ailgylchu gwastraff bwyd?

- Ydym
- Nac ydym

## A.1.21 Pe bai'n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru wahanu gwastraff bwyd ar gyfer ailgylchu, a fyddai hyn yn newid...

### A.1.21.1 Cynnydd mawr, Cynnydd bach, Dim effaith, Gostyngiad bach, Gostyngiad mawr

- …eich costau a/neu incwm o gymharu â gweithredwyr safleoedd trin gwastraff bwyd eraill?
- …eich gallu i gystadlu â gweithredwyr safleoedd trin gwastraff bwyd eraill?
- …y gystadleuaeth y mae eich safle trin gwastraff bwyd yn ei hwynebu gan weithredwyr newydd yn y farchnad?
- ...eich cyfranogiad yn y busnes safle trin gwastraff bwyd?
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes

## A.1.22 Tua faint yw'ch trosiant blynyddol £/y flwyddyn yn ymwneud â rheoli gwastraff annomestig yng Nghymru?

- Hyd at £2 filiwm
- Rhwng £2 filiwn a £10 miliwn
- Rhwng £10 miliwn a £250 miliwn
- Mwy na £250 miliwn

## A.1.23 Faint o'ch gweithwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol yn rheoli gwastraff annomestig yng Nghymru? (cyfwerth â llawn amser)

- Llai na 10 gweithiwr
- Rhwng 10 a 49 gweithiwr
- Rhwng 50 a 249 gweithiwr
- 250 neu fwy o weithwyr

## A.1.24 Fyddai'r newidiadau canlynol yn effeithio ar yr ardal ddaearyddol lle gallai'ch busnes gyflenwi ei wasanaethau?

### A.1.24.1 Dim effaith; Peidio gweithredu mewn rhai ardaloedd yng Nghymru; Peidio gweithredu ym marchnad Cymru

- Mae'n ofynnol i bob safle masnachol a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru **wahanu ailgylchu sych i dair ffrwd**: papur/cerdyn, plastig/metel a gwydr?
- Mae'n ofynnol i bob safle masnachol a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru **wahanu gwastraff bwyd?**
- Mae'n ofynnol i bob safle annomestig a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru **wahanu gwastraff tecstilau ar gyfer ailgylchu**?
- Mae'n ofynnol i bob safle masnachol a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru **wahanu gwastraff cyfarpar electronig a thrydanol ar gyfer ailgylchu**
- Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar yr effaith ar eich busnes.

## A.1.25 A fyddai un o'r opsiynau canlynol yn cael effaith well ar gystadleuaeth, incwm neu gyfranogiad eich busnes na'r cynnig presennol o ailgylchu tair ffrwd?

- Pe bai'n ofynnol i bob safle masnachol a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru wahanu deunydd pecynnu papur, cerdyn, gwydr, plastig a metel o'u gwastraff gweddilliol ar gyfer ailgylchu, i'w casglu fel **ffrwd ailgylchadwy gymysg**
- Pe bai'n ofynnol i bob safle masnachol a safleoedd adeiladu a dymchwel adeiladau mawr yng Nghymru rannu **ailgylchu sych i bum ffrwd:** papur, cerdyn, plastig, metel a gwydr.
- Ychwanegwch unrhyw sylwadau sydd gennych chi ar yr opsiynau hyn isod

## A.1.26 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn.

Diolch am eich amser. Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn i'r astudiaeth hon yn fawr a byddwn yn defnyddio'ch safbwyntiau i lywio newidiadau parhaus i ddeddfwriaeth

## A.2.0 Gwastraff bwyd i gwestiynau carthffosiaeth cyfweliad

Roedd y cwestiynau cyfweliad a drafodwyd gyda phob cyfranogwr fel a ganlyn:

1. Trefniadaeth
2. ydy'r sefydliad:
    a. Gweithgynhyrchu neu werthu'r cynhyrchion canlynol sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd ar wahân, cyn ei waredu mewn carthffod:
        i. Macerators (naill ai fel darn o offer annibynnol neu ar y cyd ag offer arall fel peiriant dad-ddyfrio)
        ii. Dad-ddyfrio peiriannau (naill ai fel darn o offer arunig neu ar y cyd ag offer arall fel macerator)
        iii. Treulwyr ensymau?
    b. Gweithgynhyrchu neu werthu cynhyrchion sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu offer sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i'r garthffos (megis cynhyrchion microbaidd ac ensymau)?
    c. Gwerthu gwasanaethau mewn perthynas â gweithredu offer a ddyluniwyd i drin gwastraff bwyd cyn ei roi i'r garthffos (megis contractau cynnal a chadw ar gyfer y math hwn o offer)?

3. Trosiant blynyddol bras yn ymwneud â chynhyrchion a ddefnyddir i drin gwastraff bwyd ar wahân ffynhonnell cyn ei waredu i garthffos yng Nghymru

4. Nifer bras y gweithwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r gweithgareddau busnes a nodir yng nghwestiwn 2 yng Nghymru

**O ran cynhyrchion ar gyfer trin gwastraff bwyd cyn ei waredu mewn carthffos:**

5. Os nad yw defnyddio macerators i drin gwastraff bwyd ar wahân ffynhonnell a gynhyrchir gan adeiladau masnachol yng Nghymru, wedi'i eithrio o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos, a fyddai hyn:
    a. Arwain chi i newid eich cyfranogiad yn y busnes trin gwastraff bwyd (graddfa 1-5, ei leihau'n fawr i gynyddu'n fawr, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    b. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â gweithgynhyrchwyr eraill o gynhyrchion sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu offer sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i'r garthffos (graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    c. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â chyflenwyr gwasanaethau eraill mewn perthynas â gweithredu offer sydd wedi'i gynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu i'r garthffos (graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)

Nodyn: dylid defnyddio “amherthnasol” lle nad yw'r busnes sy'n cael ei arolygu yn gwerthu'r math o gynnyrch neu wasanaeth y cyfeirir ato yn y cwestiwn

6. Os nad yw defnyddio offer dad-ddyfrio i drin gwastraff bwyd ar wahân ffynhonnell a gynhyrchir gan adeiladau masnachol yng Nghymru, wedi'i eithrio o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos, a fyddai hyn: Yn eich arwain at newid eich cyfranogiad yn y busnes trin gwastraff bwyd (1 Graddfa -5, ei leihau'n fawr i gynyddu'n fawr, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    a. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â gweithgynhyrchwyr eraill cynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu yn y garthffos (Graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    b. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â gweithgynhyrchwyr eraill o gynhyrchion sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu offer sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei roi i'r garthffos (Graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    c. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â chyflenwyr gwasanaethau eraill mewn perthynas â gweithredu offer sydd wedi'i gynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei roi i'r garthffos (Graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)

7. Os nad yw defnyddio treulwyr ensymau i drin gwastraff bwyd ar wahân ffynhonnell a gynhyrchir gan adeiladau masnachol yng Nghymru, wedi'i eithrio o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos, a fyddai hyn:
    a. Arwain chi i newid eich cyfranogiad yn y busnes trin gwastraff bwyd (Graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    b. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â gweithgynhyrchwyr eraill cynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei waredu yn y garthffos (Graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    c. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â gweithgynhyrchwyr eraill o gynhyrchion sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu offer sydd wedi'u cynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei roi i'r garthffos (Graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)
    d. Effeithio ar eich gallu i gystadlu â chyflenwyr gwasanaethau eraill mewn perthynas â gweithredu offer sydd wedi'i gynllunio i drin gwastraff bwyd cyn ei roi i'r garthffos (Graddfa 1-5, yn negyddol iawn i fod yn gadarnhaol iawn, neu 0 os nad yw'n berthnasol)

8. I ba raddau y byddai'r rheoliadau newydd yn cyfyngu'r ardal ddaearyddol y gallai eich busnesau gyflenwi ei gwasanaethau oddi mewn iddi, pe na bai pob adeilad masnachol yng Nghymru sy'n defnyddio'r offer canlynol i drin gwastraff bwyd ar wahân ffynhonnell wedi'i eithrio o'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffos:
    a. Macerators - naill ai fel darn o offer arunig neu ar y cyd ag offer arall fel peiriant dad-ddyfrio? (1: Dim effaith; 2: Peidio gweithredu mewn rhai ardaloedd yng Nghymru; 3: Peidio gweithredu ym marchnad Cymru)

b. Dad-ddyfrio peiriannau - naill ai fel darn o offer arunig neu ar y cyd ag offer arall fel macerator? (1: Dim effaith; 2: Peidio gweithredu mewn rhai ardaloedd yng Nghymru; 3: Peidio gweithredu ym marchnad Cymru)
c. Treulwyr ensymau? (1: Dim effaith; 2: Peidio gweithredu mewn rhai ardaloedd yng Nghymru; 3: Peidio gweithredu ym marchnad Cymru)